# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Mai 2018

Amser: 09.18 - 12.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4796

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Gareth Pierce, Prif Weithredwr, CBAC<br>Mike Ebbsworth, CBAC<br>Philip Blaker, Cymwysterau Cymru<br>Emyr George, Cymwysterau Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Gareth Rogers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Joe Champion (Ymchwilydd) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Michelle Brown. Nid oedd dirprwy yno ar ei rhan.

1.2 O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Darren Millar AC fod ei ferch yn ymddangos yn y fideo a ddangoswyd ar ddechrau'r cyfarfod a'i fod yn llywodraethwr yn Ysgol Santes Ffraid.

## 2 Darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion – cyfweliadau â phobl ifanc (fideo)

2.1 Gwyliodd y Pwyllgor fideo fer.

## 3 Darparu gwerslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion – sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymwysterau Cymru a CBAC.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Blaenraglen Waith y Pwyllgor – Sesiwn gynllunio strategol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer y tymor hir. Cytunodd y byddai darnau penodol yn cael eu cwmpasu a'u trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i Fagloriaeth Cymru, gan lansio ymgynghoriad cyn toriad yr haf.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Newyddenedigol, yn enwedig mewn perthynas â'r trydydd rhifyn o'r safonau newyddenedigol.

6.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet am eglurhad o'r sefyllfa o ran cyllid ar gyfer y Grant Darparu Plant a Theuluoedd.

6.5 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet, yn gofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y Cod Trefniadaeth Ysgolion sydd ar ddod.

6.6 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i dynnu sylw at bryderon ynghylch y defnydd o ddata dros dro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebau drafft.

6.7 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlinellu rhai materion allweddol y mae am eu hystyried fel rhan o'r cylch cyllideb nesaf, gan gynnwys ei ddisgwyliadau y darperir Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft 2019 - 2020.